WG35.S.102

# MARWNAD NEU ALARNAD
## MAB AM EI RIENI,

*Sef Isaac a Mary Jones, ger Llanwrtyd, y rhai a fuont feirw, y cyntaf yn 1838, a'r diweddaf yn 1854, ac a gladdwyd wrth Gapel y Glynos.*

*Gan Roger Jones, Llanwrtyd, brawd arall Isaac o Dreflys.*

**Ail Argraffiad.--Pris Ceiniog a Dimeu.**

1 Rhyw achos galaru gaf deimlo,
Ac aml ofidio o hyd,
Ac etto 'does dim wedi addo,
Ond croesau tra'n rhodio'n y byd;
Ymhlith yr amrywiol ofidiau,
Daeth angau fe friwiodd fy mron,
Aeth ymaith a'm hanwyl rieni,
Er canu—galarnad yw hon.

2 Rhyw ddeunaw cant meithion o flwyddi,
Tri deg ac wyth hefyd at hyn,
Oedd oedran ein Ceidwad pryd hyny,
A'm Tad yn wynebu y glyn;
A deunaw cant ydoedd a haner,
A phedair pan ddeuai y dydd,
I mam i ymdrechu ag angau,
A myn'd o'i gofidiau yn rhydd.

3 Oed 'nhad pan yn myn'd trwy'r Iorddonen,
Oedd pumtheg a thru'gain ag un,
Gadawodd ef ddyddiau'r addewid,
Heb glefyd byth wrtho ynglyn,
Saith deg a phump hefyd o flwyddi,
Oed mam ydoedd hyny i gyd,
Pan hedodd ei henaid anfarwol,
I'r byd sydd drag'wyddol ei hyd.

4 Er bod un ar bumtheg o flwyddi,
Rhwng mam myn'd i'w chladdu a nhad,
'Roedd angau mor anhawdd i'w dderbyn,
A gelyn ergydiau mewn brad,
Er dyfod blin aml ofidiau,
A thrymion gystuddiau i'r ty,
Croesawir braidd bob peth cyn angau,
Par hwn wylo dagrau i mi.

5 Galaru sydd eithaf naturiol,
I'r holl natur ddynol i gyd,
Ar rhyw amgylchiadau fel hyny,
Sef symud rhieni o'r byd,
Er bod eu haneddau yn unig,
Maent ddiddig heb ofid na braw,
Nid rhaid i'r preswylwyr ddim crynu,
Nac ofni fod gelyn gerllaw.

6 'Rwi yn gweled fwy fwy 'nol eu claddu,
Mae ofer yw imi roi mryd,
Ar ddim o bob pethau a welir,
Cyfnewid yn brysur mae'r byd,

X20S31099X

Mae dull y byd hwn ynmyn' d heibio,
Mae felly i fod etto'n mhob oes,
'Does dim dal ymddiried byth ynddo,
Ond 'rhwn ga'dd ei hoelio ar y groes.

7 O am gael adnabod y cyfaill
Ym mhob rhyw gyfyngder a lyn,
Fe gefna fy anwyl berth'nasau
Yn angau 'madawant bob un,
Fe allai mae hwy fydd y cynta'
Waith methu a dala yn lan,
A minau yn haeddiant yr IESU,
Pryd hyny a'i mentraf yn mlaen.

8 Er myned o Abel mab Adda,
Yn gyntaf trwy angau o'r byd,
Rhyw filoedd tra maith a'i canlynodd,
Hyd yma trwy'r oesoedd i gyd,
Ond etto mae adeg cyfarfod,
A'r forau'r diwrnod a fydd
Tylwythau y ddaear fydd yno,
Fu, ddaw, a'r rhai hefyd y sydd.

9 Mae'r siwrneu'n dra phell aethant iddi,
Am f'anwyl rieni 'r wy'n son,
Gobeithiaf yn wir eu bod heddyw
Mewn gwlad nad oes pechu na phoen,
Eu cyrph a osodwyd i orwedd,
Yn waeledd o'm golwg i mwy,
Ni wnant hwy ddychwelyd byth attaf,
Ond rhodiaf ar fyr attynt hwy.

10 Heb ofyn un cennad daeth angau
Fe'u t'rawai 'n eu bron gwnaeth eu brad,
I'r galon yn union 'r ergydiodd
Nes safodd peirianau eu gwa'd;
Ffyddlondeb a welwyd yn eglur,
A llafur tra parodd eu taith,
O'r pryd dechreuasant grefydda,
Nes gorphen eu gyrfa a'u gwaith.

11 Gadawsant ni 'nol mewn mawr alar,
'Doedd dim gennym, bedwar o blant,
A phawb yn bresennol oedd yno,
Ond wylo a hwy'n myned bant,
O'r teimlad nis gallwyf ddarlunio,
O hyd ydwyf ynddo'n barhaus,
Wrth feddwl eu bod wedi 'ngado,
Mae hyn arnaf etto fel trais.

12 Ond etto dymunwn i feddwl
Mae llywydd y cwbwl yw Duw,
Mae 'Fe all gymmeryd pawb atto,
Pan mynno a'u cadw hwy'n fyw,
Ac hefyd dymunwn i dewi,
A pheidio rhyfygu yn un wedd,
Ond cofio mai buan y byddaf
Fy hunan yn wael yn y bedd.

13 Rhyw gennad tra didwyll yw'r angau,
Nid arfau na dim wna ei droi,
Ni thycia dim moddion meddygon
Mae pob rhyw gysuron yn ffoi;
Pe chwiliwn y llwybrau dramwyent,
A'r teiau'r aneddent yn fyw,
Nis gallaf ei ffeindio'n y rheiny,
Eu lletty yw'r gladdfa gwir yw.

14 'Rym ni yma etto'n ymddifaid,
Yn eubyd anialwch y byd,
Fe allai fod llawer heb deithio
Ond hwy aethant trwyddo i gyd,
Bron methu a gweled 'rym ynddo,
Pa fodd i ymlwybro ymlaen,
Ac etto mae achos rhyfeddu
'N bod heddym tu yma i'r tan.

15 Rhyw lawer cydmariaeth arferir,
O fewn yr ysgrythur o hyd.
Er dangos mor fyred yw'n dyddiau,
A gwagder holl bethau y byd,
A'nt heibio fel gwenol y gwehydd,
Neu gysgod ar fynydd neu fryn,
Neu eryr yn hedeg at ymborth,—
Duw'n gymmorth i feddwl am hyn.

16 Deisyfais un peth gan yr Arglwydd,
A hynny a geisiaf o hyd,
Sef trigo o fewn ei gynteddau,
Nes myn'd trwy borth angau o'r byd.
I edrych a gwel'd ei brydferthwch,
Mae hyny i mi o fawr werth,
A 'mofyn am dano'n ei deml,
Fel hyn adnewyddir fy nerth.

17 Bu'r seintiau sydd wedi myn'd adref
Yn trigo 'n eu dyddiau'n y ty,
Rhaid dechreu trafaelu tra yma,
Os awn i'r gymanfa sydd fry,
Os garw y daith rhaid trafaelu,
Heb byth roddi fynu'n un wedd,
Ceir gorphwys yn llonydd 'nol hynny,
Yn nistaw ystafell y bedd.

18 O nad allwn dewi fel Aaron,
Er colli dau feibion oedd gu,
Yn ddiau yn ddwys iddo deimlo,
Pan ga'dd ei ergydio mor gru'
Mae pob goruchwyliaeth yn gywir,
Er bod yn aneglur yn awr,
Mae niwl a chymylau'n ei chuddio,
O olwg trigolion y llawr.

19 Bu Jacob yn ymdrech a'r angel,
Mewn rhyfel ryw ddydd braidd a'i Dduw.
Aeth Benjamin bach meddai ymaith,
Simeon a Joseph nid yw,

Yr olwyn pryd hyn oedd heb gylchu,
A'r cwbl oedd iddo fe 'nghudd.
Daw'r troion tywyllaf i ninnau
Ryw forau mor oleu a'r dydd.

20 Ffyrdd Duw sy'n y moroedd o'r golwg,
Nid ydynt yn amlwg bob pryd.
A'i lwybrau'n y dyfroedd sydd ddyfnion
Ond pob peth sydd gysson i gyd,
Cymhylau a th'wllwch amgylcha,
'Rhwn ferchyg ar wyntoedd y nen,
Cyfiawnder a barn ydyw trigfa,
Ei orsedd am byth byddo'n ben.

21 Hen elyn dynoliaeth yw'r angau,
Mae'n tramwy a'i gledd i bob gwlad,
Mae'n torri o hyd yr undebau,
Rhwng plant sydd a'u mammau a'u Tad.
Ond er rhaid rhoi fyny i'r angau,
Ei faeddu ga'dd yntau cyn hyn,
Yn llwyr fe'i gorchfygodd yr Iesu
Er trengu ar Galfari fryn.

22 Er rhoddi'n hanwyliaid i orwedd,
Do'nt fyny'n ddilygredd ryw ddydd,
Wrth floedd yr Archangel cyfodant,
Ni fyddant ddim hwy yn y pridd.
Daw'r duwiol ar ddelw ei Anwylyd
O'r gweryd, a'i wisg fydd yn wyn,
Y meirw i gyd a gyfodir,
A'r byw a newidir pryd hyn.

23 Yn gorwedd yn eu hystafelloedd,
Mae miloedd cyfiawnion y byd,
Ac er bod yn awr yno'n isel,
Do'nt fyny'n ddidrafel ryw bryd;
Ysgrythur a ddywed yn eglur
Cyfodir holl deulu y glyn,
Gan hynny boed i ni diddanu,
Ein gilydd yn gysson a hyn.

24 Mae'n bwysig anrhaethol i'n gredu,
Arthrawiaeth y codi a fydd,
Pe amgen mae'n ofer pregethu,
Ac ofer gweithredu ein ffydd,
Bu'n Iesu ei hun yn ddiamau
Dros ennyd dan seliau y bedd,
Ond cododd fel blaenffrwyth ei deulu,
Cant hwythau gyfodi mewn hedd.

25 Ffarwel fy anwylaf rieni,
'Rwyf nawr yn terfynu fy nghan,
Ni chaf eich cymdeithas ond hyny,
Fel cawn wrth fy magu o'r blaen,
Mae'm gobaith cawn gwrdd yn fwy sanctaidd,
Heb lygredd tu arall i'r llen,
Bob dydd 'rwyf am bwyso ar Iesu,
'Rhwn ddaeth i'm gwaredu, Amen.

---

JONES A'I MAB, ARGRAFFWYR, &c., ABERDAR.